# Ydych chi wedi gweld y pryfyn hwn?

Cacynen Asia, *Vespa velutina*

NNSS
GB non-native species secretariat

## Beth ydyw?

Ysglyfaethwr tra ymosodol ar bryfed brodorol sy'n peri risg sylweddol i wenyn mêl a phryfed peillio eraill. Cafodd y rhywogaeth estron oresgynnol hon, sy'n tarddu o Asia, ei chyflwyno yn Ffrainc drwy ddamwain yn 2004, lle mae wedi lledaenu'n gyflym ac i mewn i wledydd cyfagos. Ers 2016, mae sawl achos o weld cacwn Asia wedi'u cofnodi yn y DU.




Mae ychydig yn llai na'r gacynen Ewropeaidd frodorol. Gellir ei chymysgu â rhywogaethau eraill, a ddangosir isod ar eu graddfa wirioneddol er mwyn eu cymharu.



**Cacynen Asia**



**Cacynen Ewropeaidd**



**Gwenynen feirch ganolwedd**



**Pry hofran sy'n dynwared cacynen**



**Cacynen y coed**

## Ble y gallwn ei gweld?

Mae'n bosibl y byddwch yn ei gweld ar blanhigion sy'n blodeuo, o amgylch cychod gwenyn, o amgylch ffrwythau a phrotein sy'n pydru / eplesu, ac mewn marchnadoedd stryd oherwydd stondinau ffrwythau melys a physgod. Mae'n weithredol rhwng mis Chwefror a mis Tachwedd ledled Cymru a Lloegr.

**Mae'r pryfed hwn yn pigo, peidiwch ag aflonyddu ar nyth actif.**

**Rhowch wybod ar unwaith os byddwch yn gweld cacwn Asia ac anfonwch lun:**

- gan ddefnyddio ap cofnodi iPhone ac Android: **'Asian Hornet Watch'**
- ar-lein yn: **nonnativespecies.org/asianhornet**
- drwy e-bost: **alertnonnative@ceh.ac.uk**

**Dysgwch fwy a rhowch wybod am achos o weld cacynen Asia:**

I gael rhagor o wybodaeth am rywogaethau estron goresgynnol ewch i: **nonnativespecies.org**